Y RHWYDWAITH YMCHWIL IECHYD MEWN YSGOLION
SCHOOL HEALTH RESEARCH NETWORK

Medi 2015

Annwyl Riant,

Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr

Caiff y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion ei arwain dan Brifysgol Caerdydd, mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Cancer Research UK. Bob dwy flynedd, gwahoddir ysgolion y Rhwydwaith i gymryd rhan mewn Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr. Caiff y wybodaeth a gesglir yn yr arolwg ei defnyddio i lunio Adroddiad Iechyd a Lles Myfyrwyr ar gyfer pobl ysgol. Mae'r adroddiadau hyn yn adnodd gwerthfawr i ysgolion ac yn ategu'r gwaith y maen nhw'n ei wneud i ddiogelu a gwella iechyd a lles eu myfyrwyr.

Mae ysgol eich plentyn yn cymryd rhan yn yr Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr y tymor hwn. Caiff yr arolwg ei gwblhau ar-lein o dan oruchwyliaeth aelod o staff yr ysgol. Mae'n cynnwys cwestiynau ar amrywiaeth o ymddygiadau iechyd, gan gynnwys deiet, gweithgarwch corfforol, ysmygu, alcohol, cyffuriau, bywyd ysgol a pherthnasoedd. Gofynnir nifer fach o gwestiynau i fyfyrwyr Blwyddyn 11 ac uwch ynghylch ymddygiad rhywiol. Gall pob myfyriwr ddewis a ydyn nhw eisiau cwblhau'r arolwg ai peidio, a gallan nhw beidio ag ateb unrhyw gwestiwn nad ydyn nhw eisiau ei ateb.

Caiff yr arolwg ei gwblhau'n ddienw. Bydd Prifysgol Caerdydd yn defnyddio data'r arolwg i lunio Adroddiadau Iechyd a Lles Myfyrwyr, ac ar gyfer ymchwil i iechyd pobl ifanc. Mae'r Adroddiadau Iechyd a Lles Myfyrwyr yn cynnwys data cyfansymiol yn unig e.e. canran bechgyn blwyddyn 7 sy'n bwyta brecwast bob dydd.

Gobeithiaf y byddwch yn fodlon i'ch plentyn gymryd rhan yn yr arolwg. Os oes gennych chi unrhyw bryderon, os hoffech weld cwestiynau'r arolwg neu dynnu eich plentyn yn ôl, rhowch wybod i dderbynfa'r ysgol cyn gynted â phosibl.

Yn gywir,

Yr Athro Simon Murphy
Prifysgol Caerdydd

Partneriaeth yw Rhwydwaith Ymchwil Ysgolion Iach rhwng DECIPHer, Cancer Research UK, Llywodraeth Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Phrifysgol Caerdydd.

The School Health Research Network is a partnership between DECIPHer, Cancer Research UK, Welsh Government, Cardiff & Vale University Health Board, Public Health Wales and Cardiff University.

@SHRNWales
www.shrn.org.uk

DECIPHer, Prifysgol Caerdydd, 1-3 Plas yr Amgueddfa, Caerdydd, CF10 3BD
DECIPHer, Cardiff University, 1-3 Museum Place, Cardiff, CF10 3BD
+44 (0) 29 2087 9609